Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Awyr Dywyll
Dark Skies

# Wedi'i ysgrifennu yn y sêr

## Arweinlyfr i gytserau a'u chwedlau Cymreig



# Sut i ddechrau arni

**Pa un a ydych yn archwilio awyr y nos o Ardal Ddarganfod AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy neu o'ch gardd gefn, mae cytser, cawodydd meteor a phlanedau yno i chi eu darganfod!**

Dewiswch noson glir a lle diogel y tu allan, i ffwrdd oddi wrth adeiladau uchel a goleuadau llachar. Bydd yn cymryd o leiaf 20 munud i'ch llygaid addasu'n iawn. Gall llygredd golau effeithio'n fawr ar yr hyn y gallwch ei weld yn awyr y nos

Ar yr olwg gyntaf bydd yr awyr yn edrych yn llawn o sêr heb unrhyw drefn na phatrwm ond gydag ychydig o wybodaeth ac ymarfer byddwn yn fuan iawn yn gallu gweld rhyfeddodau awyr y nos.

www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/projects/dark-skies

Does dim rhaid buddsoddi mewn offer drud i ddechrau gerthfawrogi'r sêr. Yn aml iawn, bydd llygad noeth neu ysbienddrych yn ddigon. Fodd bynnag, **cyn cychwyn** dyma restr o bethau y byddwch eu hangen er mwyn bod yn ddiogel a gwneud y gorau o'r profiad o astudio'r sêr a'r awyr dywyll:

- **Dillad cynnes** – het, menig, a digon o haenau o ddillad!
- **Tortsh / Tortsh Pen** – gyda lens goch (er gwybodaeth - mae'n cymryd tua 20 munud i'r llygaid addasu i'r tywyllwch, felly diffoddwch eich goleuadau a pheidiwch ag edrych ar eich ffôn)
- **Ffôn Symudol** – Cofiwch ddweud wrth rywun lle'r ydych yn mynd a pha bryd yr ydych yn bwriadu dychwelyd
- **Ysbienddrych**
- **Esgidiau cryfion**
- **Fflasg o ddiod poeth**
- **Mat / blanced i eistedd**
- **Map o'r sêr**
- Cofiwch gadw at **lwybrau penodedig** mewn ardaloedd lle gofynnir i chi wneud hynny, er mwyn gwarchod ecoleg a bioamrywiaeth yr ardal

# Mabon - Yr Heliwr

Caiff ei adnabod fel dwyfoldeb haul y gaeaf ac mae'r cytser hwn yn codi wrth i nosweithiau'r gaeaf ddynesu. Mabon oedd yr unig dduw a oedd yn ddigon pwerus i allu trin y ci hela nerthol, Drudwyn (Sy'n cael ei gynrychioli yn yr awyr gan gytser y Ci Mawr (Canis Major) sy'n cynnwys Siriws - y seren fwyaf disglair yn yr awyr).

Mabon yw'r enw Celtaidd ar Gyhydnos yr hydref ac mae Paganiaid yn parhau i ddathlu gwledd Mabon i groesawu'r cynhaeaf a'r gaeaf pan fydd ar fin dechrau.

Yn lleol mae Rhiwabon sy'n ffurf o 'Rhiw Fabon' neu 'Fryn Mabon', felly tybed a oedd Mabon ei hun wedi crwydro'r llechwedd hwn gan edrych ar yr un sêr a welwn ninnau heddiw?

**Sut i ddod o hyd:** Mae Orion yn gytser gaeaf a gwanwyn. Bydd ysgwyddau'r heliwr yn dechrau ymddangos dros y gorwel tua diwedd mis Hydref. Tua diwedd mis Tachwedd wrth i chi edrych tua'r dwyrain yn gynnar gyda'r nos fe welwch dair seren enwog gwregys yr heliwr. Yn y top ar y chwith fe welwch Betelgeuse (sy'n golygu Cesail y Cawr) ac yn y gwaeled ar y dde fe welwch Rigel, sy'n nodi pen-glin. Y rhain yw dwy seren fwyaf llachar y cytser hwn. Cofiwch chwilio am gŵn hela Mabon, wedi'i nodi gan y seren ddisgleiriaf yn ein hawyr nos ni – Siriws.




BETELGEUSE
BELLATRIX
RIGEL
SAIPH


PLEIADES
ALDEBARAN

# Y Tarw / Yr Ych

Roedd Hu Gadarn yn enwog am gyflwyno ffermio i'r Cymry ac am ddofi pâr o fwystfilod cryfaf y Ddaear, yr ych. Galwyd arno i achub pobl dda Dyffryn Conwy rhag bwystfil dychrynllyd; Yr Afanc (a gynrychiolir gan gytser Sgorpiwn).

Dywedwyd bod yr Afanc yn anferth, gyda chrafangau miniog fel rasel ac wedi'i orchuddio â chen crocodeil, fe ddaeth â thrallod i'r bobl, gorlifo'r dyffryn a dinistrio cnydau. Defnyddiodd Hu Gadarn ei ychen i dynnu'r anghenfil o Lyn Yr Afanc yn Afon Conwy a'i lusgo i lyn yn uchel i fyny ar Yr Wyddfa, Llyn Ffynnon Las, lle na allai achosi rhagor o niwed.

Yn anffodus, bu farw un ych yn y frwydr a gosodwyd ei enaid yn y sêr ar ffurf Yr Ych nerthol.

**Sut i ddod o hyd:** TDaw'r Tarw yn ôl i'n hawyr dwyreiniol ym mis Tachwedd ac mae'n gytser gaeaf a gwanwyn ond i'w weld ar ei orau ym mis Ionawr. Am 9pm ym mis Ionawr edrychwch yn syth tua'r de ac fe welwch Aldebaran, seren lachar iawn sy'n  nodi llygad y tarw a'r cytser Pleiades (Y Saith Chwaer) sy'n cynrychioli'r corff.  Cyngor defnyddiol: edrychwch ar y Pleiades gyda binocwlars a byddwch yn gweld llawer mwy o sêr nag y byddech wedi'i feddwl!



# Y Bugail / Ffermwr – Hu Gadarn

Hu Gadarn oedd arweinydd chwedlonol y Cymry a oedd yn ymddangos yn straeon y Mabinogi. Dywedir iddo ddod â phobl Cymru i Brydain o 'Deffrobani' a'u dysgu i ffermio, dyfeisio'r aradr ac mai fo oedd y dynol cyntaf i uno bwystfil a pheiriant. Mae hyn yn cysylltu Hu Gadarn a'r Aradr.

Yn y Gymraeg, mae gan yr aradr lawer o enwau â chysylltiad amaethyddol fel, 'Jac A'i Wagen', 'Yr Aradr' a 'Yr Haeddel Fawr', mae pob un o'r rhain yn enwau ar yr aradr.

Os edrychwch i mewn i awyr y gaeaf, fe welwch Hu Gadarn y tu ôl i'r Yr Aradr, gyda'r Ych o'i flaen, yn tynnu'r cytserau ar draws awyr y nos.

**Sut i ddod o hyd:** Os edrychwch tua'r dwyrain ym mis Mawrth byddwch yn gweld ychydig i'r gogledd ddwyrain o'r dwyrain seren lachar iawn o'r enw  Arcturus.  Hon yw seren ddisgleiriaf y cytser hwn. Chwiliwch am siâp barcud i'r dde o Arcturus i weld gweddill Hu Gadarn.




ARCTURUS


CASTOR
POLLOX

# Yr Efeilliaid. Yng Nghymru,
## Gwyn & Gwythur

Yn chwedloniaeth Cymru gelynion yw Gwyn a Gwythyr, 'Gelynion Mai', y ddau'n brwydro yn erbyn ei gilydd dros yr hyfryd Greudyladd.

Roedd Gwythyr ap Greidawl, un o ddynion y Brenin Arthur, mab Greidawl Galldonyd, un o farchogion y Bwrdd Crwn, mewn cariad â Chreudyladd ond yn drist iawn cafodd ei chipio i ffwrdd gan ei brawd dieflig, Gwyn am Nudd. Roedd Gwyn yn dduwdod yr isfyd ac yn ein stori ni mae'r awyr yn dynodi'r gaeaf. Mae Gwythyr, y da, yn cynrychioli'r haf.

Wrth i'r sêr sy'n creu'r cytser hwn symud drwy awyr y nos maent yn edrych fel pe baent yn cwympo dros ben ei gilydd - haf yn erbyn gaeaf, da yn erbyn drwg, Gwythyr yn erbyn Gwyn, wedi'u cloi mewn brwydr fyth fythol.

Wrth i'r cytser hwn fachlud ar Galan Mai, Calan Noson Haf, y noson cyn y cyntaf o Fai, dethlir yr haf yn gorchfygu'r gaeaf, ac felly da yn gorchfygu drwg, a daw cariad Gwythyr yn ôl ato tan y gaeaf pan fydd y frwydr gyfan yn digwydd unwaith eto. Mae hi'n noson o wledda, a elwir mewn chwedloniaeth yn wledd Beltane. Mae'n amser pwysig yn amaethyddol gyda defodau i hyrwyddo twf a ffrwythlondeb ac i ddiogelu cnydau a da byw.

**Sut i ddod o hyd:** Chwefror yw'r adeg gorau i weld 'Gelynion Mai, Gwyn a Gwythyr'. Am 9pm ddiwedd Chwefror, edrychwch yn union tua'r de. Yn uchel yn yr awyr fe welwch y ddwy seren Castor a Pollox, neu fel yr ydym yn eu hadnabod yng Nghymru, Gwyn a Gwythyr.



# Safleoedd Awyr Dywyll
# Dark Sky Sites

**1 Maes Parcio Llangwyfan**
Nannerch, Dinbych CH7 5RP
Yn ymuno â Llwybr Clawdd Offa
**Llangwyfan Car Park**
Nannerch, Denbigh CH7 5RP
Joins the Offa's Dyke Path

**2 Maes Parcio Moel Arthur**
Llwybr Clawdd Offa, Yr Wyddgrug
CH7 5NZ
**Moel Arthur Car Park**
Offa's Dyke Path, Mold CH7 5NZ


**3 Mael Parcio Moel Famau**
**Bwlch Pen Barras**
Barras Pen Bwlch, Yr Wyddgrug
CH7 5SH
**Moel Famau Bwlch Pen Barras Car Park**
Bwlch Pen Barras, Mold CH7 5SH

**4 Rhaeadr y Bedol**
Llantysilio, Llangollen, LL20 8B
**Horseshoe Falls**
Llantysilio, Llangollen, LL20 8BN



www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/projects/dark-skies

www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/dark-skies




NOS
PARTNERIAETH AWYR DYWYLL
DARK SKIES PARTNERSHIP

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Llywodraeth Cymru
Welsh Government